
# YMGYRCH CYMRU

CYLCHLYTHYR AELODAU CND CYMRU Rhif 7 CHWEFROR / MAWRTH (Copïau ychwanegol 15c)


# AMGYLCHYNU ALDERMASTON



*Mae CND yn mynd yn ôl i Aldermaston y Pasg yma, 36 mlynedd ar ôl i brotestiadau gwrth-niwcliar dynnu sylw am y tro cyntaf at ganolbwynt y diwydiant niwcliar, a 30 mlynedd ar ôl i CND orymdeithio i Lundain. Manylion y tu mewn.*

**Gŵyl Heddwch coffa Henry Richard.**
Coleg Technegol Merthyr,
Sadwrn, Chwefror 27, 1988.

**RHAGLEN**

12 hanner dydd - agoriad.

*Llwyfan*

12.15 - 12.45 Côr Cochion Caerdydd.
12.45 - 1.15 Curly, gitarydd-blues.
2.45 - 3.00 Bruce Kent
3.00 - 4.00 Graham Larkby.
4.15 - 5.00 Howling Sleepers.

*Gweithdai*

12.30 - 5.00 Fideos 'Red Flannel'
1.00 - Keith Strange - Hanes Merthyr a Henry Richard.
2.00 - Gweithdy Barddoniaeth.

*Gwyl y Plant*

1.00 - 4.00 Sioe dewiniaeth, Byd Cerdd a Super Ted.

Bob blwyddyn, mae Wythnos Cymru Ddi-Niwcliar yn cyrraedd ei anterth mewn dathliad Cymru gyfan. Dewiswyd Merthyr y flwyddyn yma i farcio canmlwyddiant marwolaeth un o aelodau seneddol mwyaf adnabyddus Merthyr, Henry Richard, Apostol Heddwch.

Siawns i ni gofio ac i ddathlu ei fywyd. Cadeirydd CND, Bruce Kent fydd y Siaradwr Gwadd, ac fe fydd bandiau, fideos, cantorion, gweithdai yn ogystal â bar, creche, amrywiaeth o stondinau a Gŵyl y Plant. Rhywbeth i bawb! Diwrnod i gyfarfod, trafod, meddwl, ond yn bwysicach byth diwrnod i fwynhau.

**Mae ysbryd Henry Richard yn fyw o hyd, gadewch i ni ei brofi ar y 27ed.**

## Dowch i Ferthyr

## Yn y rhifyn yma:


Rhaglen Gwyl Henry Richards (Merthyr)

▣

Aldermaston gwrthdystiad y Pasg

▣

Cynhadledd Flynyddol CND Cymru

# RHAGOLYGON DIARFOGI

Ar gychwyn 1988 mae'r gobeithion am ddiarfogi'n edrych yn fwy addawol nag y buont ers deng mlynedd. Gall arwyddo'r cytundeb diweddar rhwng America a Rwsia fod yn gam cyntaf tuag at fyd heb arfau niwcliar, nod a gefnogir gan CND a Gorbachev ond a **wrthwyneblr** gan Thatcher.

Er mai dim ond 3% o'r arfau niwcliar a ddileir gan y cytundeb, pe dilynid ef gan doriad o 50% o'r arfau strategol a chadw at lythyren Cytundeb Arfau Niwcliar 1972, byddid yn cymryd camau breision iawn tuag at ddileu gwallgofrwydd y ras arfau. Cofier fod y ras arfau hon wedi atal twf economaidd America a Rwsia ac wedi creu tlodi, caledi a newyn ym mhob rhan o'r byd.

Ni ddylem ganiatau i Thatcher a'i thebyg ddilorni dylanwad grwpiau a mudiadau heddwch ledled y byd ar farn gwleidyddion a'r cyhoedd. Cyfrannodd Seland Newydd Ddi-Niwcliar, mudiadau'r Môr Tawel, grwpiau heddwch y Gorllewin a'r mudiad heddwch Americanaidd oll at gael Reagan i gefnu ar ei gefnogwyr ceidwadol a chytuno i arwyddo'r cytundeb arfau.

Rwtsh yw'r ddadl fod y cytundeb wedi cael ei orfodi ar Rwsia oherwydd nerth arfog America – fel hurtrwydd y ddadl sy'n dweud mai'r unig ffordd o atal rhyfel yw cael mwy a mwy o arfau. Dadl hollol wallgo yw hon wrth gwrs.

Fodd bynnag, mae eleni'n flwyddyn dewis Arlywydd newydd yn America a bydd Reagan wedi mynd cyn bo hir . . . i'w ddilyn gan bwy? Mae Thatcher, er ei hagwedd glên tuag at Gorbachev, (yn bennaf er mwyn camerâu'r wasg) yn gwrthod ildio modfedd, heb sôn am ddileu arfau niwcliar Prydain. Mae dwy long danfor Trident yn cael eu hadeiladu a chyda thrafodaethau yn mynd ymlaen ar hyn o bryd rhwng Prydain a Ffrainc gyda'r nod o gydweithredu ar ddatblygu arfau niwcliar, medrem weld gwireddu breuddwyd David Owen ac adeiladu 'bom Ewropeaidd'. Byddai'r hunllef hon yn sicr o uno'r holl fudiadau heddwch Ewropeaidd yn erbyn y cynllun. Fodd bynnag, rhaid i ni symud ymlaen o brotestiadau at weithredu positif o blaid diarfogi os ydym i gadw ein nerth a hefyd i ennill mwy o gefnogaeth.

Ofn aelodau CND yw y gwelir ailadrodd 1963, 1971 ac yn y blaen . . . pan arwyddwyd cytundebau (ee Atal Profi Rhannol, 'Salt 1' a 'Salt 2') ond na weithredwyd arnynt a datblygwyd systemau arfau newydd heb fawr o brotestio. Erbyn hyn mae CND mewn safle llawer cryfach o ran trefniadaeth a syniadaeth i atal yr un peth rhag digwydd eto. Yn ôl y wasg rydym ar fin diflannu ond edrydd ein rhestrau cyfrifiadur o aelodau, staff amser llawn ac incwm rheolaidd stori dra gwahanol. Yn bwysicach fyth, mae'r aelodau wedi dysgu drwy brofiad ac fel y dangosodd Cynhadledd CND ym mis Tachwedd, maent yn benderfynol o gael y maen i'r wal. Mae cyfeiriad ac ymgyrchoedd y mudiad yn holl bwysig os nad ydym yn mynd i wastraffu egni ein grwpiau ac os ydym yn mynd i gadw diddordeb ein cefnogwyr.

Efallai mai'r cam pwysicaf y medrai'r gwledydd niwcliar ei gymryd fyddai arwyddo cytundeb cyffredinol i atal pob arbrofi â bomiau niwcliar. Methodd CND â manteisio ar benderfyniad Rwsia i beidio ag arbrofi ag arfau niwcliar am ddeunaw mis ond ni ddylai hynny ein hatal rhag ymgyrchu dros gytundeb i atal yr arbrofi a'r datblygu unwaith ac am byth. Byddai hynny'n atal datblygu unrhyw systemau newydd, gan gynnwys 'Rhyfel y Gofod' (Star Wars). Mae hyn yn holl bwysig oherwydd os caniateir datblygu'r system honno, byddai'n chwalu pob gobaith am ddiweddu'r ras arfau. Erbyn hyn trechwyd y problemau o ran gwireddu cytundeb o'r fath ac nid oes unrhyw reswm pam na ddylem weld arwyddo cytundeb byd eang yn 1988.

Yn anffodus mae'r gwledydd sydd o blaid arfau niwcliar, sy'n cynnwys Prydain, am ymladd i'r carn i chwalu cytundeb o'r fath. Un peth yw cytuno i ostyngiad bach yn nifer rhai bomiau a thaflegrau, ond mae'n stori wahanol hollol pan ddaw'n fater o atal unrhyw ddatblygiad pellach. Mae ysfa benstiff y llywodraeth Dorïaidd hon i ffeirio Polaris am Trident yn llywio ei barn, oherwydd i wneud hynny rhaid wrth fwy o arbrofion a datblygu.

Gallai ymgyrch i atal arbrofi pellach ag arfau niwcliar ennill llawer o gefnogaeth, gan gynnwys pobl nad oedd o blaid diarfogi unochrog. Bu CND Cymru yn ymgyrchu dros gytundeb o'r fath dros y deuddeg mis diwethaf a llwyddodd i gael cefnogaeth aelodau seneddol Plaid Cymru, Llafur a Rhyddfrydol. Byddai cam positif arall o du Rwsia, tebyg i'w moratorium blaenorol, yn hwb anferthol i'r galw am gytundeb cyffredinol.

Yn olaf, medrai 1988 fod y flwyddyn pan wireddir llawer o'n gobeithion, gyda'r byd yn cymryd camau breision tuag at ddiarfogi yn hytrach na rhyfel. Dylai ein hymgyrchoedd bwysleisio'r manteision positif: diarfogi a datblygu, lles pobl ac nid eu lladd, gwaith ac nid taflegrau. Dylai'r rhain fod yn fwy na sloganau. Dylem ddatblygu dadleuon a fydd nid yn unig yn dangos Thatcher a'i chefnogwyr rhyfel oer yn NATO am y lladdwyr ydynt, ond hefyd yn terfyn ar ei theyrnasiad maleisus.

*Bob Cole*

## Beth yw arwyddocâd y cytundeb

**GWAHARDDWYD**

- Grymoedd Niwcliar Canolig neu INF: h.y. taflegrau seiliedig ar dir y Sofiet a'r Unol Daleithiau, gydag ystod rhwng 300 a 3,000 o filltiroedd. Ychydig llai na 5% o'r arfau niwcliar sydd yn y byd.

**YN CAEL EU TRAFOD**

- Grymoedd Niwcliar Strategol: taflegrau-tir y Sofiet a'r UDA gydag ystod cyrhaeddiad dros 3,000 o filltiroedd, taflegrau balistig a lenshir o longau tanfor, ac awyrennau-bomio pell-gyrhaeddiad. Cytunwyd ar dorri 50% o'r rhain mewn egwyddor, ond mae'n ddibynnol ar gytundeb parthed Amddiffynfeydd Strategol.
- Amddiffynfeydd strategol: systemau megis 'Rhyfeloedd Gofod', a luniwyd er distrywio taflegrau strategol ar-yr-aden ac wedi eu targedu.

**HEB EU CYFYNGU**

- Grymoedd niwcliar Ffrainc, Prydain, Tseina ac Israel.
- awyrennau-bomio cyrhaeddiad canolig fel yr F1-11 a'r taflegrau a gludir yn y rhain.
- taflegrau Cruise o longau tanfor a llongau eraill.
- pob arf niwcliar tactegol fel taflegrau â chyrhaeddiad sy'n llai na 300 milltir, sieliau-magnel niwcliar, arfau rhyfel niwcliar er dinistriad, a bomiau-dyfnder niwcliar.

# DETENTE ODDI ISOD

## Ymweliad a'r Undeb Sofietaidd

Ymwelais â'r Undeb Sofietaidd gyda Grŵp Pensiynwyr Dros Heddwch Gogledd Cymru. Roedd yn daith bleserus ac addysgiadol. Yn ogystal ag ymweld ag amgueddfeydd, orielau celf a.y.b., roeddwn yn falch o gael cyfle i dynnu llun o faner CND Cymru yn y Sgwar Coch. (Ni fedrwch wneud hynny yn yr Undeb Sofietaidd, wyddoch!) Tynnwyd llun ohoni hefyd y tu allan i'r Pwyllgor Heddwch ym Moscow. Mae Datganiad 1985 erbyn hyn mewn sawl lle yn yr Undeb Sofietaidd ac fe gafodd dderbyniad twymgalon a gwerthfawrogol iawn.

Cawsom noson fythgofiadwy yn Kalinin, dinas fechan ar yr afon Folga, gyda'r feterans, y cyn-filwyr. Roedd yn gôr o ferched mewn gwisgoedd traddodiadol yn canu alawon traddodiadol. Buom yn canu ac yn dawnsio gyda nhw. Roedd yn hyfryd cael gweld aelodau hŷn ein grŵp, pobl yn eu wythdegau, yn dawnsio ac yn canu.

Uchafbwynt arall ein hymweliad oedd y daith yn y trên o Kalinin i Leningrad. Gwelodd rhyw wraig a oedd yn eistedd wrth fy ymyl y gair MIR (heddwch) ar boster roeddwn yn ei blygu (rhodd oddi wrth dywysydd ifanc). Dechreuodd ganu. Buom yn canu yr holl ffordd i Leningrad – caneuon Cymraeg, Saesneg, Rwsieg, Eidalaidd – darnau o opera. Roedd pawb yn y cerbyd yn canu. A fyddai hyn yn digwydd ar yr Inter-City rhwng Llundain a Manceinion? Fe hedfanodd y 4 awr a hanner.

Roedd yr ymweliad â'r Pwyllgor Heddwch yn Leningrad eto yn ddigwyddiad diddorol. Tynnwyd lluniau o faner CND Cymru. Cyflwynasom gerflun o lechen Gogledd Cymru. Ymhlith pethau eraill cyflwynais lyfr ar Gymru a gyfrannwyd gan Siop y Pethe, Aberystwyth.

Yng nghaer St Pedr a St Paul yn Leningrad – lle mae'r gynnau mawr yn parhau i danio am hanner dydd (hefyd gwneir hyn o'r Gianicolo yn Rhufain!), gwelsom luniau o'r 17 milwr a wrthododd danio ar y dyrfa yn ystod gwrthryfel 1917 – cawsant eu carcharu ond fe'u rhyddhawyd gan y bobl.

Ym Moscow fe aeth rhai aelodau o'n grŵp i Eglwys y Bedyddwyr – gwasanaeth 2 awr a 3 pregeth. Roedd y lle'n orlawn. Yn Kalinin aeth rhai i'r Eglwys Uniongred – cynulleidfa lawn a chanu hyfryd yma eto.

Gwnaethom hedfan o Leningrad – Fenis y Gogledd – gyda chwmni Aeroflot ac fel rhan o'r pryd bwyd cynigiwyd caviar a gwin i ni.

Gallwn ysgrifennu am nifer o argraffiadau eraill. Y Metro ym Moscow, siopa yn y siopau mawr, a'r siopau llai, marchnadoedd, a.y.b., yr ymweliad â thŷ opera bychan yn Leningrad. Yr opera – The Queen of Spades – roedd y gerddorfa yn chwarae Tchaikowsky gydag arddeliad. Ymweliad bythgofiadwy. Roedd pawb am ddychwelyd yno – mae gennym lawer i ddysgu gan y gymdeithas Sofietaidd (roedd y strydoedd a'r Metro mor lân). Gallent hwy ddysgu oddi wrthym ni. Teimlaf y dylem hybu teithiau cyfnewid o bob math ac ymgyfeillachu â phobl o bob diwylliant a chred fel ag i ddinistrio 'myth y gelyn', fel y gall y Mudiad Heddwch ym mhob rhan o'r byd dyfu mor gryf fel na all llywodraethau ei anwybyddu.

*Olwen Davies*

## Lluniau plis!

Hoffem gael eich llythyrau, sylwadau, hysbysebion a chyfraniadau, ond yn enwedig ffotograffiau o unrhyw ddigwyddiad heddwch neu gwrth-niwcliar.

Rhestrir digwyddiadau CND am ddim, ond mae hysbysebion yn £15 am 1/8 tudalen, £25 am 1/4 tudalen. Anfonwch at Ymgyrch Cymru, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd erbyn Mawrth 1.

# ATGYFODIAD MADRYN!

Mae'n wyth mlynedd ers pan gyfododd y grwp protest nodedig MADRYN ym Meirionnydd i ddangos gwrthwynebiad cymuned gyfan bron i'r bwriad o gloddio sbwriel niwcliar yn ei thir.

Golygai llwyddiant MADRYN (Mudiad Amddiffyn Dynoliaeth Rhag Ysbwriel Niwcliar) a PANDORA (People Against Nuclear Dumping on Rural Areas, a weithredai ym Maldwyn oddeutu'r un amser) fod sylw wedi ei hoelio erbyn 1983 ar Cleveland ac ar ymgyrch Greenpeace ym Môr Iwerydd. Wedyn ar Fulbeck, Killingholme, Bradwell ac Elston yn Nwyrain Lloegr y gaeaf diwethaf: yn ffodus bu Etholiad Cyffredinol a chafwyd esgus economaidd wan dros gyfiawnhau peidio gweld y cyfryw leoedd yn addas i'r pwrpas o dderbyn gwastraff niwcliar.

Gyda bod y sioe o ewyllys da tuag at ddemocratiaeth wedi ei rhoi heibio'n ddiogel am bum mlynedd arall, daeth cynlluniau diweddaraf y diwydiant niwcliar i'r amlwg yn y 'New Scientist' yn ystod yr Haf 1987. Amlygwyd fersiwn swyddogol o'r cynlluniau parthed sbwriel niwcliar a'r rhanbarthau ddewiswyd i'r pwrpas o'i gladdu ym Mhrydain, ar ffurf dogfen ymgynghorol gan NIREX ar Dachwedd 12.

Byr o dro fu pobl Gwynedd yn gwrthwynebu holl gynlluniau NIREX. O fewn diwrnodiau i'w cyhoeddi, trefnwyd dyddiad ar gyfer cyfarfod cyhoeddus ym Môn – un o'r rhanbarthau oedd dan fygythiad. Mynegodd un Pwyllgor Amddiffyn yn Llŷn ei wrthwynebiad, ac ail-anwyd MADRYN yng nghefn gwlad canolbarth Cymru.

Cododd gwrthwynebiad disymwth – y math o ymateb nas disgwylir fel rheol ond sydd yn galonogol i ymgyrchwyr blinedig – o drwch poblogaeth Môn. Roedd ystod eang y gwrthwynebiad ddangoswyd mewn ardaloedd a fu'n ddibynnol ar y diwydiant niwcliar am dros 20 mlynedd yn wir galondid. Roedd arweinyddion gwleidyddol oedd benben mewn ymrafael gwyllt yn ystod yr etholiad cyffredinol ychydig fisoedd ynghynt, bellach yn dangos yn glir eu bwriad i gydweithio â'i gilydd. Roedd cynghorwyr a fu am flynyddoedd yn cefnogi ynni niwcliar yn ddigwestiwn yn dechrau gweld gwir arwyddocâd y diwydiant wrth orfod wynebu oblygiadau marwol a therfynol ei is-gynhyrchion. Ni chaiff gorsafoedd ynni niwcliar fyth eto yr un cefnogaeth frwd.

**Ond pam y dylai CND gysylltu ei hun â thrafodaeth yn ymwneud â sbwriel niwcliar? Onid cam arall oddi wrth y prif bwrpas, sef gwneud i ffwrdd yn llwyr ag arfau niwcliar ydyw?**

Fe gefnogwn ni ymgyrchoedd yn erbyn ynni niwcliar am ei fod yn gysylltiedig â'r diwydiant arfau. Dangoswyd mai dull aneconomaidd o gynhyrchu trydan yw ynni niwcliar ac onibai am angen y fyddin am blwtoniwm, ni chawsai fyth y fath gefnogaeth gan lywodraeth ar ôl llywodraeth. Ar ben hyn mae oddeutu 20% o'r gwastraff sydd yn peri pryder yn deilliaw o ffynonellau milwrol!

Dylai aelodau CND Cymru drwy Gymru gyfan – nid yn y rhanbarthau sydd dan fygythiad ym Môn a Llŷn yn unig – ymateb i gais NIREX am sylwadau drwy ddangos yn glir eu gwrthwynebiad i'r diwydiannau sifil a milwrol rheini sydd yn cynhyrchu gwastraff niwcliar.

Ysgrifennwch at:
P T McInerney, Cyfarwyddwr Gweithredol, NIREX Cyf Y Deyrnas Unedig, Curie Avenue, Harwell, Didcot, Swydd Rhydychen OX11 0RH **erbyn 31 Mai 1988.**

**Morgan Parry**

# Byd cyfoethog, byd tlawd

**DAFLEN AR GAEL I GRWPIAU**
**LEAFLET AVAILABLE TO GROUPS**
**Ffôn / Tel: (0766) 831833.**

The Third World War has begun ....



Mae'r Trydedd Rhyfel Byd wedi cychwyn...

Ym mis Rhagfyr y llynedd lansiwyd ymgyrch ar y cyd gyda "War on Want" Cymru, i dynnu sylw at yr angen dybryd i ddefnyddio adnoddau'r byd ar gyfer datblygu yn hytrach na dinistrio. **Erfyniwn arnoch i fabwysiadu'r thema yma. Yr hyn y gallwch ei wneud:-**
Trefnu cinio "Byd cyfoethog — Byd tlawd", ble mae gwesteion yn talu am ginio, ac yn derbyn un ai bryd moethus o fwyd neu bowlen fechan o reis, yn dibynnu ar ba docyn a dynnent allan o het. Dim ond un rhan o dair o'r gwesteion fydd yn derbyn pryd llawn — y cynllun yn ymdebygoli a'r sefyllfa yn y byd, lle mae dwy ran o dair o'r boblogaeth yn dlawd, ac un rhan o dair uwchben eu digon. Mae'n achlysur delfrydol ar gyfer codi'r pwyntiau, a byddai gwahodd pobl "adnabyddus" lleol yn sicrhau sylw gan y cyfryngau.

Mae taflen ddwyieithog "Mae'r Trydydd Rhyfel Byd wedi cychwyn" ar gael gan CND Cymru. Defnyddiwch hwn, o ddrws i ddrws ac ar y strydoedd.

"Diarfogi a Datblygu" — sioe symudol — arddangosfa a drefnwyd gan "War on Want Cymru". Y mae siaradwyr o CND a WOW yn barod i fynychu cyfarfodydd lleol, i drafod y pynciau llosg a chynnig awgrymiadau ymgyrchu (dylid rhoi o leiaf bythefnos o rybudd).

Cynorthwywch ni i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgyrch yma — a chofiwch, pa beth bynnag y byddwch yn ei wneud, gadewch i'r cyfryngau gael gwybod eich bod yn ei wneud!

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â: Bob Cole, CND Cymru (0766 831 833) neu Richard Marshall, War on Want Cymru (0222 373590).



*Cadeirydd CND Cymru, Rhodri Glyn Thomas, yn dathlu'r cytundeb INF gyda swyddog o'r Swyddfa Gymreig ar Ragfyr 10.*

## Pax Legalis v Margaret Thatcher

Llynedd fe geisiodd Pax Legalis, grwp a sefydlwyd yn yr Wyddgrug, fynd â'r Llywodraeth i gyfraith dan y Ddeddf Hil-laddiad. Gwrthod eu hachos fodd bynnag wnaeth y Twrnai Cyffredinol.

Er hynny fe wnaed cais i'r llysoedd adolygu dyfarniad y Twrnai Cyffredinol, ac fe gynhaliwyd y gwrandawiad hwnnw ar Hydref 21, 1987 gyda'r Barnwr Simon Brown yn y gadair. Y nod oedd cael caniatâd i erlyn y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Amddiffyn, ac er na lwyddwyd yn hynny o beth fe sylwodd y cyfreithwyr oedd yn gweithredu ar ran y grŵp fod 'na sail i apelio. Cynhaliwyd yr apêl hwnnw yn yr Uchel Lys ar Ragfyr 14, 1987 gyda'r barnwyr McPherson a Lloyd yn gwrando arno. Ond chydig o glust a gafwyd ganddynt. Fe ddangoson nhw wrthwynebiad llwyr i'r cais ac fe feirniadon nhw yn hallt y rhai fu'n rhoi cyngor cyfreithiol i Pax Legalis am ganiatau i'r mater ddod i'r Uchel Lys o gwbwl!

Her ystrydeb yw dweud y gall y gyfraith fod yn gwbwl hurt ond dangosodd gwaith Pax Legalis nad ar y gyfraith roedd y bai yn eu hachos nhw ond y cyfreithwyr. 'Dyw hi ddim yn bosib erlyn Gweinidog y Goron yng Ngwledydd Prydain heb gael caniatâd y Twrnai Cyffredinol sydd ei hun wedi cael ei benodi gan y Goron! Mewn sefyllfa o'r fath mae'n amlwg mai 'hwliganiaid' gwleidyddol ataliodd Pax Legalis rhag bwrw ymlaen â'u cynlluniau.

Fydd hynny fodd bynnag ddim yn ddigon i roi taw ar Pax Legalis sydd yn bwriadu bwrw ymlaen â'u hymgyrch mewn pum gwahanol ffordd:

1 Yn gyntaf drwy godi'r achos efo'r AS'au ac yn arbennig bwerau'r Twrnai Cyffredinol.
2 Bwrw ymlaen â'r posibilrwydd o drefnu cynhadledd ryngwladol ar y thema y gyfraith a hil-laddiad.
3 Cynhyrchu 'gweithlyfr' yn delio â'r oblygiadau cyfreithiol.
4 Cynorthwyo cynhyrchu rhaglen deledu dan y teitl posib 'Deddf na fu'n ddeddf'.

Yn bwysicach na dim fodd bynnag mae Pax Legalis mewn dyled sylweddol ar ôl yr ymgyrch – £4,500 i fod yn fanwl gywir. Gofynnir felly i grwpiau ac unigolion gyfrannu a chodi arian drwy weithgareddau amrywiol os yw hynny'n bosib.

Dylid anfon unrhyw gyfraniad i: Pax Legalis, d/o Jim Daley, 54 Llys Wylfa, Mynydd Isa, Yr Wyddgrug. Ffôn: 3586.

# Taith Heddwch yr Urdd i Geneva, Hydref 1987

Pan drefnodd Syr Ifan ab Owen Edwards daith i Genefa yn 1930 roedd yn lleddfu'r 'awydd mawr i wneud rhywbeth . . .' a rhoi'r 'cyfle i weithredu ac i wasanaethu'. Felly y penderfynodd 'arwain parti o fechgyn i gartref Cynghrair y Cenhedloedd . . . a mynd â'r Neges yn bersonol i gartref y corff a ystyrid ar y pryd yn obaith heddwch byd cyfan'.

Mae'n debyg bod yr awydd am heddwch yr un mor gryf ymhlith ieuenctid Cymru heddiw ag yr oedd 58 o flynyddoedd yn ôl; penderfynodd criw o bobl ifanc ddilyn esiampl Syr Ifan drwy fynd â Neges Heddwch i gorff sy'n ceisio cadw heddwch yn y byd modern.

Ar y dechrau, bwriad y Panel oedd anfon 8 aelod o'r Urdd gyda dau ofalwr i Genefa – yn bennaf oherwydd costau – a dewiswyd Aelwyd y Parc, Y Bala ac Ysgol Penweddig, Aberystwyth fel cynrychiolwyr y mudiad. Gosodwyd nod ariannol o £800 i'r ddwy gangen ac aeth y bobl ifanc ati'n syth i godi arian.

**Aelodau Seneddol yn derbyn Neges Heddwch**

Penderfynwyd trefnu cyfarfod yn Nhŷ'r Cyffredin i gyflwyno ein Neges i arweinyddion gwledydd Prydain ac anfonwyd gwahoddiad i bob aelod seneddol yng Nghymru i gyfarfod arbennig yn y Tŷ. Chwe aelod yn unig a dderbyniodd ein gwahoddiad.

Ddydd Gwener, Hydref 23, cyrhaeddom Dŷ'r Cyffredin a chamerâu 'Bilidowcar' yn dilyn ein taith drwy strydoedd prysur Llundain. Y tu allan i'r Senedd roedd pobl o'r Parc ac Aberystwyth yn ein disgwyl a'r aelodau seneddol a oedd i dderbyn y Neges. Cynhaliwyd y cyfarfod mewn un o ystafelloedd pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ac roedd yr awyrgylch yn arbennig iawn. Croesawyd pawb gan Geraint Howells AS, ac ategwyd ei eiriau cyfeillgar a chefnogol gan yr aelodau seneddol eraill, sef Dafydd Elis Thomas, Richard Livsey, Paul Flynn, Martyn Jones a Win Griffiths.

**24 Hydref yn Genefa**

Erbyn 9.30 y diwrnod canlynol, roeddem yn sefyll o flaen porth y Cenhedloedd Unedig yn edrych ar adeiladau urddasol. Cawsom ein hebrwng i Swyddfa'r Cyfarwyddwr Cyffredinol gan un o'r swyddogion – a dynion camera Bilidowcar yn ein dilyn bob cam! Braint yn wir oedd cwrdd â Mr Jan Martonsen, y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a chyflwyno'r holl negeseuon heddwch iddo. Gofynnwyd i ni ganu rhywbeth yn y Gymraeg a rhoddwyd pennill o 'Efengyl Tangnefedd'.

Roedd rhai o'r ffeithiau a glywsom yn codi ein calonnau ac eraill yn ein digalonni'n lân. Braf oedd clywed bod dros dair mil o bobl yn gweithio yn yr adeiladau hyn dros heddwch, ac am waith ardderchog y mudiad mewn sawl maes – plant, ffoaduriaid, iechyd ac yn y blaen. Ar yr ochr dywyll clywsom fod gwledydd y byd yn gwario mwy ar arfau mewn pythefnos na fyddai'n ei gostio i fwydo a chartrefu holl bobloedd y byd dros gyfnod o flwyddyn. A beth am y ffaith erchyll mai 26 diwrnod o wir heddwch a welwyd yn y byd ers yr Ail Ryfel Byd. Daeth hi'n amlwg i bawb fod yr ymgyrch dros heddwch yn un hir ac anodd, ond daeth pob un ohonom allan o'r adeilad hwnnw yn fwy penderfynol nag erioed i ddilyn y llwybr cul, a darbwyllo eraill i wneud yr un peth.

**Y Neges**

Yn sicr dechreuad yn unig oedd y daith hon, a phawb yn benderfynol o atgoffa arweinyddion gwledydd y byd o eiriau'r Neges Heddwch.

**DIWEDDARAF TRAWS!**

**Ar ôl gynhadledd i'r Wasg yn y Ty Cyffredin ar y 3ydd o Chwefror, lle fynegwyd barn cryf pobl ardal Trawsfynydd ar yr arbrawf niwcliar penderfynodd y C.E.G.B. ohirio eu cynllun.**

**Chwaraeodd CND Cymru ran blaenllaw yn yr ymgyrch yn lleol, ond cam cyntaf yn unig yw hwn - BETH FYDD CYNLLUNIAU NESAF Y C.E.G.B. AR GYFER CYMRU?**

URDD GOBAITH CYMRU

**BRYS NEGES**
**APÊL ARBENNIG**
**I sylw arweinyddion gwledydd y Cenhedloedd Unedig**

..BRYS...
... Bob nos gwelaf ryfeloedd a son am fomiau niwcliar arswydus ar fy nheledu....
... Mae arna i ofn....
...Wnewch chi ddiogelu ein dyfodol a gwneud gwledydd y byd yn ffrindiau....
... Efallai y bydd hi'n rhy hwyr
- rhyw ddydd... DIWEDD...

# Y Mudiad Heddwch yn Awstralia

Mae tarddiad mudiad heddwch Awstralia i'w ganfod yn glir yng ngrwpiau gwrth-rhyfel cynnar y dauddegau, ond bu'r cynnydd mwya yn ystod y saithdegau, adeg y gwrthdystio yn erbyn rhyfel Vietnam. Bu cynnydd newydd yn yr wythdegau, megis ym mhobman arall o ganlyniad i gyflymu'r ras arfau. Prif ganlyniad hyn o ran trafnidiaeth oedd sefydlu'r PND'au (People for Nuclear Disarmament) yn yr Unol Daleithiau sy'n cyfateb fwy neu lai i CND ym Mhrydain, a grwp cenedlaethol ACDP (Australian Coalition for Disarmament and Peace) a'i gartref yn Sydney. Cafwyd Raliau Sul y Blodau cyhoeddus, a ddechreuodd yn Brisbane yn 1982, ac a ledodd yn fuan i daleithiau eraill. Yn 1985, amcangyfrifwyd fod chwarter miliwn o bobl wedi cymryd rhan. Taniwyd dychymyg llawer gan y Raliau Sul y Blodau hyn ac fe'u cefnogwyd gan gymdeithasau gwleidyddol, crefyddol, cymunedol ac undebol. Gwnaed llawer o waith ymroddgar a llawn dychymyg gan y PNDau er mwyn sicrhau eu llwyddiant.

Roedd Blwyddyn Ryngwladol Heddwch yn her arbennig i aelodau'r mudiad yn Awstralia. Cydnabu'r Llywodraeth y flwyddyn â grant o dair miliwn doler, a rhoddwyd cychwyn i'r digwyddiad gan y Prif Weinidog. Serch hynny roedd polisi tramor y llywodraeth, a oedd yn cefnogi arbrofi niwcliar gan yr Unol Daleithiau, cloddio am uranium a'i allforio, a chroesawu llongau rhyfel niwcliar yn gwbl groes i amcanion y grwpiau heddwch.

Gwnaed cryn gynnydd yn ystod 1986 ac er gwaetha gostyngiad yn niddordeb y cyhoedd, y flwyddyn ddiwethaf yma, mae yna gyfnod o gadarnhau wedi bod. Mae hyn yn cynnwys:

**Newid yn nelwedd gyhoeddus y mudiad.** Dydi heddwch ddim yn air budr bellach, a dyw aelodau ddim yn cael eu hystyried yn ffanaticiaid peryglus neu'n ffyliaid hygoelus dan ddylanwad Rwsia.

**Twf mewn Astudiaethau Heddwch ar bob lefel** gan gynnwys cyrsiau mewn ysgolion, ac ymchwil a dysgu ar lefel drydyddol. Derbyn diffiniad ehangach o 'heddwch' sy'n cynnwys mwy na diarfogi. Gall olygu cyfiawnder a chynnwys syniadaeth sy'n ymwneud â datblygiad. Sefydlwyd cysylltiadau rhwng y mudiad a'r mudiadau hunan-ymreolaeth mewn amrywiol rannau o'r byd, y mudiad Tir i'r brodorion Aboriginal a'r sawl sy'n gwrthwynebu darostyngiad economaidd y Trydydd Byd.

Mae safle ddaearyddol bwysig Awstralia a'i chysylltiadau gwleidyddol a'r UDA yn rhoi iddi safle bwysig yn y gynghrair niwcliar orllewinol. Yn yr un modd gallai fod yn genedl a chanddi rôl bwysig fel gwlad ddi-ochr a di-niwcliar. Oherwydd hyn rydan ni'n rhoi pwyslais mawr ar feithrin cysylltiadau a grwpiau eraill ym mhob rhan o'r byd, ac mi rydan ni'n ceisio cryfhau'r cysylltiadau hyn drwy'r amser trwy gyfnewid newyddion, llythyrau a thrwy ymweld yn bersonol pan fo hynny'n bosibl.

*David Trebilcock*
*Cyd-gysylltwr PND, De Awstralia*

# CADNO

I leisio pryder trigolion Trawsfynydd a'r cylch ynglŷn â sgileffeithiau ynni niwcliar ar eu hamgylchfyd ac ar eu iechyd, ffurfiwyd Cymdeithas CADNO (sef Cymdeithas Atal Distryw Niwcliar Oesol) ddechrau Tachwedd 1987.

Pwrpas y gymdeithas hon fydd dangos gwrthwynebiad y bobl leol i fwriad y BCCT i adeiladu atomfa arall yn Nhrawsfynydd.

Llyn Trawsfynydd yw'r llyn mwyaf ymbelydrol yn Ewrop erbyn hyn, diolch i'r Bwrdd Cynhyrchu Trydan, llyn gwenwynig yng nghanol Parc Cenedlaethol Eryri. Effeithiodd damwain Chernobyl (Mai 1986) yn drwm ar y tir uchel yma.

Pe digwyddai damwain ddifrifol mewn atomfa yma, fe effeithiai ar Wynedd gyfan, a byddai diwylliant unigryw y Gymru Gymraeg yn mynd ar ddifancoll.

Yr ydym fel cymdeithas wedi cefnogi safiad gwrthwynebwyr Hinkley Point C ac arweinyddiaeth Ieuan Wyn Jones AS yn erbyn claddu gwastraff niwcliar ar Ynys Mon.

Gellir cael mwy o wybodaeth am CADNO — pamffledi, posteri etc. ac am y gwahanol gelloedd a sefydlir gan ein hysgrifennydd cyswllt. £2.00 yw tâl aelodaeth CADNO (£1.00 i'r di-waith).
**Croesawn bob cyfle i roi cyhoeddusrwydd i'n hachos.**
Llywydd: Nesta Wyn Jones, Pantglas, Abergeirw, Dolgellau (Ganllwyd 228)
Trysorydd: Ann Williams, Bryn Llefrith, Trawsfynydd (Traws 284)
Ysgrifennydd: Paula Williams, Tyddyn Du, Maentwrog (Maentwrog 281)
Ysgrifennydd Cyswllt: Catrin Gwilym, Ogoronwy, Penrhyndeudraeth (Penrhyn 771100)

# Hei! 'Sgen ti ffansi bod yn Ysgrifennydd Cyffredinol?

Oherwydd bod Bob Cole (ein Hysgrifennydd Cyffredinol am y 4 blynedd dwetha) wedi mynd yn hen, rydyn ni'n ei roi allan i bori.

Felly mae CND Cymru yn chwilio am Ysgrifennydd Cyffredinol newydd. Os oes get ti awydd a nerth i weinyddu'n sefydliad, i fynychu'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol, yn ogystal â'r Cyngor, a gweithredu fel cysylltwr cenedlaethol a rhyngwladol - yna darllena 'mlaen!


Dylet ti fod yn giamstar ar ddirprwyo cyfrifoldebau - yn medru gweithredu o fewn mudiad cydweithredol, yn deall trefniadaeth ac yn medru rhoi arweiniad gwleidyddol.

Manteision eraill fyddai'r gallu i gyfarthrebu - yn Gymraeg a Saesneg os yn bosibl - ac i gymysgu efo gweithredwyr ac aelodau cyffredin.

Yn olaf mae angen egni, gallu creadigol a sbarc yn ogystal â dealltwriaeth o'n hamcancion a'n dulliau.

Gellir talu treuliau ffôn a theithio.

Â diddordeb? Ffonia Bob ar 0766 831833 gynteg ag y bo modd.




**A CHI YW HON / HWN?**

# Diary

**February 11** Demonstration at Trawsfynydd - test or no test 0766 831833.
**13** Cyngor CND Cymru. Help us plan our campaign for 1988. All welcome - Brynafon, Rhayadr. 11.a.m.
**14** Stop Hinkley Expansion meeting Bristol Energy Centre, Bedminster, Bristol 2.30 p.m. (09824 362).
**22** CADNO public meeting 0766 771100.
**22- 27** Nuclear Free Wales 1988.
**27** Henry Richard Memorial Peace Festival, Merthyr Tydfil. 0766 831833.
**March 6** WANA delegates meeting 09824 326 - 11 a.m. Brynafon, Rhayadr.
**11** Clwyd County Council Seminar, Shire Hall, Mold. 'Nuclear Energy use in Peacetime' 0490 83234.
**16-24** Central America Week 01 631 5173.
**18-26** Visit of Latvian Peace Delegation to Wales.
**19** CND Cymru Annual Conference, Lampeter University 0766 831833.
**26** Llanisien Demonstration start of Aldermaston Star March.
**April 4** Encirclement of AWE Aldermaston 0222 495156.
**8-11** Capenhurst Snowball 0745 571067.
**May** Disarm the Seas. Trident leafleting.
**June** United Nations Special Session on Disarmament. CND/WDC - 01 729 2523.

# ALDERMASTON

1988 marks the 30th anniversary of the Campaign for Nuclear Disarmament. We begin the year in the hope that our efforts since the first Aldermaston March have finally slowed down the nuclear arms race.

But Britain has yet to contribute to the peace-making process, deciding instead to INCREASE its arsenal of nuclear weapons. At the heart of the programme to develop new weapons is the Aldermaston Weapons Establishment in Berkshire, England, just as it was in 1958 when CND mounted its first ever protest march.

On Easter Monday, April 4, CND supporters from all over Britain will arrive at Aldermaston for a day of rallies, protests, events and at 2pm an encirclement of the perimeter fence. Can YOU come with us to the bomb factory at this crucial time? Bring music to fill the base with sound. Arrive by 12 noon. If you can't come, please return the enclosed dove symbol with a donation and it will be hung on the fence for you.

Contact your local groups or CND Cymru on 0766 831833, and help fill a coach from your area.

## EASTER MONDAY

### Star March from Llanishen

**MARCH WITH USTO ALDERMASTON**

Llanishen Atomic Weapons Establishment near Cardiff is another link in the nuclear chain, producing vital materials for the nuclear warheads. To demonstrate that link, a ten day march will leave Llanishen on March 26, and arrive at Aldermaston on the day of the major demonstration, April 4. The march will be one of many Star Marches' from around Britain to converge on Easter Monday.

**SUPPORT ALTERNATIVES TO WAR**

During February the communities around the AWE in Llanishen will be leafletted in preparation for the launch on March 21 of a campaign on Alternative Production. The campaign aims to change the face of Llanishen AWE and to offer a positive alternative to weapons production. The engineering skills at the factory can be used to produce goods to improve life not destroy life. A working group of managers and workforce is needed to investigate the sort of socially useful products that could be made at Llanishen. When a similar study was carried out at Lucas Aerospace, over 100 products were found.

On Saturday March 26, 1988 there will be a Demonstration at Llanishen. The theme will be the conversion of the AWE into more socially useful production, and in particular making links with the Health Service.

We will gather at 11am at the front gate, decorate the fence with symbols of hospital beds, see the stalls and street theatre, chalk the pavement.This will be followed by a walk to the centre of Cardiff and then on to Aldermaston to link into the National Demonstration.

2.00 Start of the walk to Aldermaston, 1st leg into Cardiff Centre
26:3:88 Llanishen — Cardiff
27:3:88 Cardiff — Newport
28:3:88 Newport — Chepstow
29:3:88 Chepstow — Bristol
30:3:88 Bristol — Bath
31:3:88 Bath — Chippenham
1:4:88 Chippenham — Swindon
2:4:88 Swindon — Hungerford
3:4:88 Hungerford — Newbury
4:4:88 Newbury — Aldermaston

## DYDD LLUN Y PASG

### Taith Gerdded o Lanishen

Yn 1988 dathlwn benblwydd CND yn 30 oed. Dechreuwn y flwyddyn gyda'r gobaith bod ein hymdrechion ers y daith gyntaf i Aldermaston o'r diwedd wedi arafu y ras arfau niwcliar.

Ond ni chyfrannodd Prydain i'r broses o godi heddwch eto, yn hytrach penderfynodd gynyddu ei chyflenwad o arfau niwcliar. Yn yr Aldermaston Weapons Establishment yn Berkshire, Lloegr, y mae craidd y rhaglen i ddatblygu arfau newydd, yn union fel yn 1958 pan lansiwyd gorymdaith brotest gyntaf CND.

Ddydd Llun y Pasg, Ebrill 4, daw cefnogwyr CND o bob cwr o Brydain i Aldermaston ar gyfer diwrnod o raliau, protestiadau, gweithgareddau, ac am 2.00pm i amgylchynu'r ffens warcheidiol. Fedrwch chi ddod gyda ni i'r ffatri fomiau ar yr amser argyfyngus yma? Dewch a cherddoriaeth i foddi'r sefydliad a swn. Dewch erbyn canol dydd. Os na fedrwch ddod, dychwelwch y golomen symbolaidd amgaeedig gyda rhodd, ac fe'i rhoddir ar y ffens drosoch.

Cysylltwch a'ch grŵp lleol neu CND ar 0766 831833 a helpwch i lenwi bws o'ch ardal.

**GORYMDEITHIWCH GYDANI I ALDERMASTON**

Mae'r Sefydliad Arfau Niwcliar (AWE) yn Llanishen ger Caerdydd yn ddolen arall yn y gadwyn niwcliar, gan gynhyrchu rhannau hanfodol i bennau niwcliar yr arfau. I amlygu'r ddolen gedy taith ddeg diwrnod o Lanishen ar Fawrth 26 a chyrraedd Aldermaston ar ddiwrnod y gwrthdystiad, Ebrill 4. Mae'n un o nifer o Deithiau Seren' o bob cwr o Brydain a ddaw at ei gilydd ddydd Llun y Pasg.

**Ymunwch a'r daith i Aldermaston. Os nad yr holl ffordd, yna cefnogwch y rhan agosaf atoch.**

### Answers to Crossword in Campaign Wales no. 6

| ACROSS | DOWN |
|---|---|
| 1 Disarmament; | 1 Dialogue; |
| 8 Rally; | 2 Star Wars; |
| 9 Apathy; | 3 May; |
| 11 Red; | 4 MAD; |
| 13 Glasnost; | 5 Trident; |
| 16 Tests; | 6 Ally; |
| 17 Key Man; | 7 Eye; |
| 20 MOD; | 10 KO; |
| 21 Strategic; | 12 Destruction; |
| 24 Caerwent: | 14 Nukes; |
| 26 Sit; | 15 Salt; |
| 27 IT | 18 To deter; |
| 29 Brawdy; | 19 Lie; |
| 30 Neutron. | 22 Treaty; |
| | 23 At War; |
| | 24 Crew; |
| | 25 None; |
| | 28 Fat. |

## Nuclear Free Wales Week CEILIDH

Friday February 26
Channel View Centre
Grangetown Cardiff
**8 till late — Bar**
**Band Danog**
Tickets £2 available from Peace Shop, Cardiff, or ring 0222 492754

## CND Cymru Annual Conference

### Lampeter 19th March

CND Cymru Annual Conference '88
Saturday March 19
St David's College, Lampeter

International relations are rapidly changing. Through our theme'Wales and the World' we will be looking at how we in Wales can relate to these changes.

The morning session will deal with the constitutional business of CND Cymru, reports, and resolutions. The latter being an important guide to our work throughout 1988.

Following lunch, the workshops (see list below) will aim to give as much information as possible and generate discussion.

Conference will be addressed by Elena Lieven (vice chair, British CND) and Prof. Ivar Knets, Chairman of the Latvian Peace Delegation who have been invited to tour Wales.

Other guests include representatives from Scotland and Ireland, and British CND's General Secretary and International Worker, Meg Beresford and Stephen Brown.

It is a delegate conference, but individual CND members will be welcomed as observers — indeed it is our hope that all groups, affiliates and individual members will attend and contribute to a lively conference which will carry us into a vigorous campgaign for 1988!

**Conference Timetable**

10am Registration
10.30am—1pm Plenary Session
*Officers' Reports, Elections, Resolutions*
1—2pm Lunch — cold buffet available
2—3pm Discussion Workshops
*The nuclearisation of the Irish Sea*
*USSR and its Peace Policy*
*Pacific 'Nuclear Test Bed'*
*NATO — Peace Maker or Breaker?*
*Disarmament and Development*
*Gulf War — to World War?*
3.30—4-15pm Guest Speakers
*Elena Lieven, Prof. Ivar Knets*
4.15 — Close, Tea.

Just when you thought the world was getting safer ... Just when the superpowers are starting to disarm ...



along comes **TRIDENT**

**Join the Walk to Aldermaston. If not the whole length then support the part of the route nearest to you.**
For further information contact: Greame on 0222 495156 or Geoff on 0222 20478.

## Cynhadledd flynyddol CND Cymru

### Llambed Mawrth 19

Cynhadledd Flynyddol CND Cymru 88
Sadwrn Mawrth 19
Coleg Dewi Sant
Llanbedr Pont Steffan

Mae cysylltiadau rhyng-genedlaethol yn cyflym newid. Drwy ein thema "Cymru a'r Byd" byddwn yn edrych ar y modd y gallwn ni yng Nghymru fod yn gysylltiedig a'r newidiadau hyn.

Bydd sesiwn y bore'n ymwneud a materion cyfansoddiadol CND, adroddiadau a phenderfyniadau — yr olaf yn arweiniad pwysig i'n gwaith yn ystod 1988.

Yn dilyn cinio canol dydd, bydd y gweithdai (gweler y rhestr isod) yn anelu tuag at roi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosib a hybu trafodaethau.

Anerchir y gynhadledd gan Elena Lieven (is-gadeirydd CND Prydain) a'r Athro Ivar Knets, cadeirydd y ddirprwyaeth heddwch o Latvia sydd wedi eu gwahodd i ymweld a Chymru.

Yn ogystal, bydd gwesteion yn cynrychioli Iwerddon a'r Alban, ynghyd ag Ysgrifennydd Cyffredinol CND Prydain a'r gweithiwr rhyng-genedlaethol Meg Beresford a Stephen Brown.

Cynhadledd i gynrychiolwyr yw, ond croesewir aelodau unigol CND fel gwrandawyr — yn wir, ein gobaith yw y bydd i bob grŵp ac unigolyn fynychu'r cyfarfod a chyfrannu at gynhadledd fywiog a fydd yn ein cyrchu tuag at ymgyrch egniol yn 1988.

**Amserlen y Gynhadledd**

10am Cofrestru
10.30am—1pm Sesiwn Cyffredinol
*Adroddiadau'r Swyddogion, Etholiadau, Penderfyniadau*
1—2pm Cinio — bwffe oer ar gael
2—3pm Gweithdai Trafodaeth
*Niwcliareiddio Môr yr Iwerydd*
*Yr Undeb Sofietaidd a'i Pholisi Heddwch*
*'Gwely Prawf Niwcliar' y Môr Tawel*
*NATO — Gwneuthurwr neu Ddinistriwr Heddwch?*
*Diarfogi a Datblygu*
*Rhyfel y Gwlff — i Ryfel Byd?*
3.30—4-15pm Siaradwyr Gwadd
*Elena Lieven, Yr Athro Ivar Knets*
4.15 — Cloi, Te.